



**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol
a gynhaliwyd ar 2 Ebrill 2026 am 09:30 trwy Zoom**

YN BRESENNOL

Cynrychiolwyr Cyflogwyr:

Dafydd Edwards, Trysorydd (Cadeirydd sy'n Ymadael)

Aelodau'r Cynllun

PST Dawn Docx, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân

Geraint Evans, cynrychiolydd y System Dyletswydd Ar Alwad

Ruth Bateman, Undeb y Brigadau Tân (Cadeirydd Newydd)

Ymgynghorwyr

PSTC Helen MacArthur

Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau Tân

Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed (gadawodd am 10:16)

Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau

Yn Bresennol

Heledd Evans, Cyfieithydd

Lisa Allington, Cynorthwydd Gweithredol

Jonathan Fryer, Arsylwr

YN ABSENNOL

Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, Aelod o'r Awdurdod Tân

Y Cynghorydd Gwynfor Owen, Aelod o'r Awdurdod Tân

Y Cynghorydd Bryan Apsley, Aelod o'r Awdurdod Tân

1 YMDDIHEURIADAU

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer:

- Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a Swyddog Monitro
- Rheolwr Ardal Paul Kay, Cymdeithas y Swyddogion Tân
- Nick Roberts, Undeb y Brigadau Tân

2 ETHOL CADEIRYDD

2.1 Dywedwyd wrth yr aelodau fod Dafydd Edwards bellach wedi cwblhau ei dymor fel Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLI) ac felly y byddai angen ethol Cadeirydd newydd. Yn unol â Chylch Gorchwyl y BPLI, dylai'r Cadeirydd gylchdroi rhwng cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr, ac felly rhaid i'r Cadeirydd newydd gynrychioli'r gweithwyr.



- 2.2 Gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer Cadeirydd gan y cynrychiolwyr gweithwyr hynny a oedd yn bresennol. Derbyniwyd enwebiad ar gyfer Ruth Bateman, a chynigiwyd hwn yn briodol ac eiliwyd gyda phawb o blaid. Felly, etholwyd Ruth Bateman yn Gadeirydd y BPLI am dymor o ddwy flynedd.
- 2.3 Cytunwyd y byddai Dafydd Edwards yn parhau i gadeirio'r cyfarfod heddiw er mwyn caniatáu i'r Cadeirydd newydd baratoi cyn eu cyfarfod cyntaf.

3 DATGANIADAU O FUDDIANT

- 3.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

- 4.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026 fel cofnod gwir a chywir.

5 DIWEDDARIAD YNGHYLCH MATERION CYFREITHIOL

- 5.1 Cyflwynodd Kim Jeal yr adroddiad ynghylch materion cyfreithiol sy'n nodi'r gofynion a'r rhwymedigaethau statudol a osodir gan y newidiadau i ddeddfwriaeth Cynllun Pensiwn y Sector Cyhoeddus, yn benodol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPS), a elwir yn fwy cyffredin fel ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).
- 5.2 Yn ogystal, mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Prosiect y Dangosfwrdd Pensiynau, prosiect cenedlaethol sy'n cael ei weithredu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
- 5.3 Nodwyd bod Rheolwr y Cynllun yn gyfrifol am sicrhau bod y tri phrosiect yn cael eu gweithredu mewn modd amserol, gan sicrhau hefyd bod y ddeddfwriaeth yn cael ei chymhwyso'n gywir.
- 5.4 Mewn perthynas ag ymarfer McCloud, cynghorwyd yr aelodau bod Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) wedi anfon canllawiau trawsffiniol yn ddiweddar, drwy Lywodraeth Cymru, ar gyfer trosglwyddiadau i mewn ac allan ac wedi gofyn am adborth gan ddefnyddwyr. Y gobaith oedd y byddai'r canllawiau yn helpu i esbonio rhai o'r trosglwyddiadau mwy estynedig y mae McCloud yn effeithio arnynt ac felly'n helpu i gyflymu rhai trosglwyddiadau. Fodd bynnag, byddai dibyniaeth o hyd ar y gweinyddwyr sy'n rhyddhau trosglwyddiadau sy'n dod i mewn i godi'r darn o waith a'i symud ymlaen mewn modd amserol.



- 5.5 Ar 26 Mawrth 2026, roedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi rhyddhau datganiad ysgrifenedig ynghylch materion yn y garfan penderfyniadau annisgwyl gan fod rhai grwpiau penodol o unigolion, yn seiliedig ar amgylchiadau pan wnaethant optio allan, yn cael eu heithrio o'u cynllun gwaddol.
- 5.6 Roedd y datganiad yn cydnabod bod y ddeddfwriaeth rhwymedi wedi eithrio grwpiau o'r datrysiad ac yn cadarnhau y byddai deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei hosgoi gyda'r bwriad o roi offeryn statudol ar waith i ganiatáu i'r hawliadau hynny gael eu prosesu. Fodd bynnag, ni fyddai'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol yn awtomatig i Gymru ac felly byddai angen i Lywodraeth Cymru roi ei deddfwriaeth ei hun ar waith. Roedd yn annhebygol y byddai hyn cyn etholiadau'r Senedd ac felly ni fyddai'n cael ei weithredu cyn diwedd 2026.
- 5.7 Roedd aelodau'r BPLI yn siomedig na ellid cymhwyso deddfwriaeth Lloegr yn awtomatig yng Nghymru gan y byddai hyn yn arafu'r broses. Nodwyd y gallai fod oedi oherwydd etholiadau'r Senedd a'r newid posibl mewn llywodraeth yng Nghymru pe bai angen newidiadau deddfwriaethol pellach i'r rheoliadau. Yn ogystal, roedd gan y Gangen Dân nifer cyfyngedig o staff ac felly roedd hi'n anodd mynd i'r afael â'r holl faterion pensiwn.
- 5.8 Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer Matthews 2 yn parhau i fod yn yr arfaeth, ond gan fod yr holl newidiadau arfaethedig yn gadarnhaol o safbwynt yr aelodau, gobeithiwyd y byddai hyn yn cael ei brosesu'n gymharol gyflym.
- 5.9 Cydnabuwyd bod y rheoliadau yn aml yn wahanol iawn yng Nghymru a Lloegr, er enghraifft, pe bai aelod wedi optio allan cyn ei ddyddiad trosglwyddo yn Lloegr gellid ei ôl-ddyddio ond yng Nghymru ni ellid gwneud hynny. Roedd rhywfaint o waith i'w wneud eto ond roedd y Gangen Dân wedi ymrwymo i gyflymu'r mater cyn gynted â phosibl.
- 5.10 Nododd aelodau'r BPLI mai dim ond ar un garfan y byddai'r rheoliadau'n effeithio, a dyma'r rhai a gysylltodd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) amlaf am ddiweddariad na ellid ei roi nes bod y ddeddfwriaeth wedi'i phasio. Felly, roedd yn bwysig bod budd-ddeiliaid yn deall y gwahaniaethau rhwng y ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr.
- 5.11 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
 - ii) **Nodi'r rhwymedigaeth statudol a osodir ar Reolwr y Cynllun i sicrhau bod pob un o'r tri phrosiect cenedlaethol yn cael eu cyflwyno fel y cyfarwyddir gan ddeddfwriaeth.**



6 ADRODDIAD DIWEDDARU – CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

- 6.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet adroddiad diweddarau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.
- 6.2 Cynigiodd cynrychiolydd Undeb y Brigadau Tân gymorth i liniaru cyswllt diangen gan fudd-ddeiliaid fel y nodwyd ym mharagraff 5.10, a chytunodd HM ac RB i gysylltu a chytuno ar fath o eiriad. Cytunodd HM hefyd i gysylltu â'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Diffoddwyr Tân sydd wedi Ymddeol (NARF) i ledaenu'r neges ac annog pobl i fod yn amyneddgar.
- 6.3 Llongyfarchodd y PST y Tîm Pensiynau ar ddechrau gwneud taliadau pan oedd y darlun pensiynau cenedlaethol yn parhau i fod mor anwadal. Gofynnwyd a oedd amserlen ar gyhoeddi pob un o'r 348 o ddatganiadau ac ymatebodd RM fod pob achos yn unigol, ond bod gwaith wedi'i wneud i wneud y broses yn fwy awtomataidd a fyddai'n cyflymu'r broses, gobeithio. Awgrymodd y PST y dylid rhoi rhywfaint o syniad i fudd-ddeiliaid o ba mor hir y gallai gymryd i'w taliad gael ei brosesu er mwyn rheoli disgwyliadau a lleihau cyswllt diangen.
- 6.4 Gofynnwyd a ystyriwyd sicrhau adnoddau ychwanegol, ac ymatebodd y PSTC MacArthur y byddai anhawster o ran sicrhau adnoddau ychwanegol oherwydd natur unigol pensiynau o fewn pob gwasanaeth. Fodd bynnag, bob tro y byddai achos yn cael ei ddatrys, a bod cymhlethdodau'n codi, dysgwyd gwersi ac felly dylai achosion yn y dyfodol ddod yn gyflymach i'w delio â nhw.
- 6.5 Cadarnhaodd Kim Jeal fod Lloegr eisoes wedi cyflwyno rhai newidiadau i'r ddeddfwriaeth System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) a Matthews 2 a oedd yn ymwneud â grwpiau a adawyd allan o'r ateb gwreiddiol, ac roedd y dyddiad cau ar gyfer Matthews 2 yn Lloegr wedi'i symud i fis Mawrth 2027. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bod wedi ymrwymo i ddilyn eu hesiampl ac felly byddent yn datblygu ymgynghoriad ac yn ymateb yn unol â hynny. Er bod cadarnhad llafar o hyn wedi'i dderbyn, ni fyddai cyn etholiadau'r Senedd ac felly roedd y dyddiad cau yn debygol o gael ei symud i Fehefin/Gorffennaf 2027. Felly, gan nad oedd cadarnhad wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru eto, ni ellid cyfathrebu â budd-ddeiliaid i'w cynghori am yr estyniad.
- 6.6 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi cynnwys yr adroddiad.**



7 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR

- 7.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad y Gweinyddwr a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd nifer o brosiectau a oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.
- 7.2 Nodwyd bod adrodd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol wedi'i ychwanegu at adroddiad y Gweinyddwr, a chroesawyd hynny.
- 7.3 Trafodwyd y data yn y cyflwyniad a thynnwyd sylw at nifer yr aelodau nad oeddent wedi mudo i borth Hunanwasanaeth yr Aelodau eto. Nodwyd bod y system hon yn llawer mwy buddiol i aelodau na'r hen borth Fy Mhensiynau Ar-lein a dylid annog aelodau i greu cyfrif cyn gynted â phosibl.
- 7.4 Gofynnwyd beth oedd yr amgylchiadau ynghylch yr ôl-groniad o adleoliadau, a chadarnhawyd bod hyn yn bennaf oherwydd aros am wybodaeth gan wasanaeth tân blaenorol yr aelod. Cadarnhaodd Dyfed ei fod wedi cytuno i roi gwybod i'r Gwasanaeth yn gynt os oedd problemau wrth gael gwybodaeth ar gyfer adleoliadau fel y gellid gwneud mwy yn y Gwasanaeth i fynd ar eu holau.
- 7.5 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi cynnwys yr adroddiad.**

8 DIWEDDARIAD AR HYFFORDDIANT

- 8.1 Cytunwyd y byddai'r PSTC MacArthur a'r Cadeirydd newydd yn datblygu rhaglen hyfforddi i gwmpasu'r 12 mis nesaf, a byddai'r trefniadau'n cael eu gwneud i gyflwyno'r hyfforddiant mewn sesiynau hanner diwrnod y tu allan i'r cyfarfod.
- 8.2 Atgoffwyd pob aelod o'r angen i gwblhau eu hyfforddiant cyfeiriadedd drwy borth y Rheoleiddiwr Pensiynau ac fe'u hanogwyd i wneud hyn fel hyfforddiant gloywi unwaith bob dwy flynedd. Cytunwyd y byddai Gwasanaethau Aelodau yn ailanfon y ddolen at bawb.

9 RHEOLI RISGIAU – CYDYMFFURFIO A RHEOLEIDDIO

- 9.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur ddiweddariad i'r Aelodau ar y trefniadau rheoli risg ar gyfer cydymffurfiaeth reoleiddiol.
- 9.2 Archwiliwyd a thrafodwyd yn fanwl y risgiau cydymffurfio rheoleiddiol a oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr fesul un.



9.3 PENDERFYNWYD:

- i) **Ystyried a chymeradwyo'r asesiad o'r risgiau cydymffurfiaeth rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

10 BWRDD YMGYNGHORI'R CYNLLUN

- 10.1 Cyngorwyd aelodau'r BPLI nad oedd cyfarfod Bwrdd Cyngori'r Cynllun wedi bod ers y BPLI diwethaf a bod yr un nesaf i fod ym mis Mai.

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PENSIWN LLEOL 2025-26 A'R CYLCH GORCHWYL

- 11.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur adroddiad blynyddol y BPLI i'r Aelodau a oedd yn rhoi manylion y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.
- 11.2 Roedd y papur hefyd yn cynnwys y Cylch Gorchwyl ar gyfer y BPLI ar gyfer 2026/27, a nodwyd nad oedd unrhyw ddiwygiadau wedi'u gwneud.

11.3 PENDERFYNWYD:

- i) **cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2025/26 y Bwrdd Pensiwn Lleol i'w gymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Rheolwr y Cynllun; a**
- ii) **chymeradwyo Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer 2026/27.**

12 CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH CRONFA BENSIWN DYFED

- 12.1 Rhoddodd y PSTC MacArthur grynodedb o Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) Cronfa Bensiwn Dyfed, a nodwyd bod y CLG ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2030 yn nodi rolau a chyfrifoldebau priodol Cronfa Bensiwn Dyfed. Roedd pob elfen wedi'i chytuno gan bob parti.
- 12.2 Yn ogystal, byddai'r CLG yn cael ei ategu gan ystod o elfennau ychwanegol gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt, cytundeb prosesu data, cofrestr risg a rennir, trefniadau uwchgyfeirio y cytunwyd arnynt a phrosesau cytunedig ar gyfer swyddogaethau craidd gan gynnwys dechreuwyr ac ymadawyr.
- 12.3 Nodwyd bod y CLG wedi cael ei adolygu a'i wneud i ganolbwyntio mwy ar aelodau a diolch i Kim Jeal am ei gwaith yn y maes hwn.



Cynghorwyd aelodau'r BPLI nad oedd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u cwblhau'n llawn gyda Chronfa Bensiwn Dyfed eto.

- 12.4 Cadarnhawyd y byddai'r meysydd hynny a amlygwyd yn y CLG yn cael eu cadarnhau cyn llofnodi.

PENDERFYNWYD:

- i) **Nodi ailbenodiad Cronfa Bensiwn Dyfed fel gweinyddwr y cynllun;**
- ii) **Cymeradwyo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth arfaethedig; a**
- iii) **Nodi'r bwriad i ddrafftio elfennau atodol.**

13 DATGANIAD POLISI DISGRESIYNOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

- 13.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur Ddatganiad Polisi Disgresiynol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr angen i Reolwr y Cynllun, yr Awdurdod, gynhyrchu Datganiad Polisi Disgresiynol Pensiynau'r Diffoddwyr Tân a'i adolygu.
- 13.2 Atgoffwyd yr Aelodau bod y penderfyniadau yn Natganiad Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân eisoes wedi'u cymeradwyo, gan gynnwys y cynnig y byddai penderfyniadau'n cael eu dirprwyo o ddydd i ddydd i swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), ar ran rheolwr y cynllun.
- 13.3 Er bod y Gwasanaeth wedi cyflwyno Datganiad Polisi Disgresiynol i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2025, er mwyn adlewyrchu'r mân newidiadau a wnaed i adfer buddion goroeswyr, o dan Reol C9 – Adfer pensiwn gweddwon, roedd y Gwasanaeth yn ceisio cymeradwyaeth i'r ychwanegiad isod gael ei gynnwys yn y polisi hwn sydd eisoes wedi'i gymeradwyo.

13.4 PENDERFYNWYD:

- i) **cymeradwyo'r mân newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer adfer buddion goroeswyr o dan Reol C9.**

14 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AT SYLW'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

- 14.1 Cytunwyd y byddai pob penderfyniad sydd angen cymeradwyaeth yr Awdurdod yn cael ei gyflwyno i gyfarfod llawn nesaf yr Awdurdod ar 20 Ebrill 2026.



15 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

- 15.1 Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Gorffennaf 2026 am 09:30.
- 15.2 Ar yr adeg hon, gofynnodd y PST a ellid codi dwy eitem o dan unrhyw fusnes arall.
- 16.1 Cynghorodd y PST fod ymgynghoriad ar Gynllun lawndal Pensiwn y Diffoddwyr Tân newydd gael ei ryddhau a gofynnodd a oedd hyn hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur ei fod ac y byddai ymateb yn cael ei ddrafftio a'i gyflwyno i gyfarfod y BPLI yn y dyfodol er gwybodaeth. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur hefyd y byddai'n gofyn i'r eitem gael ei chynnwys ar agenda cyfarfod nesaf Bwrdd Cyngori'r Cynllun.
- 16.2 Dywedodd y PST fod gwaith wedi'i wneud gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL) o ran adnoddau ar draws yr holl wasanaethau tân ac achub yn y DU, ac roedd yn eithaf amlwg bod llawer o bwysau ar Reolwyr a Gweinyddwyr Cynlluniau yn genedlaethol. Felly roedd dyhead i resymoli eu nifer, eu cyfuno, a rhoi mwy o gapasiti a gwydnwch yn y system. Byddai diweddariadau'n cael eu rhoi i aelodau'r BPLI pan fyddent ar gael.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:12